DISGRIFIAD SWYDD

## 1. MANYLION SWYDD

| | |
|---|---|
| Deiliad Swydd | Cartrefi Cymunedol Cymru |
| Teitl Swydd | Cynghorydd Materion Cyhoeddus a Pholisi |
| Rheolwr Llinell | Pennaeth Polisi a Materion Allanol |
| Cyfarwyddiaeth | Polisi a Materion Allanol |
| Lleoliad | Hybrid / Caerdydd |

## 2. DIBEN Y SWYDD

- Sicrhau fod tai cymdeithasol yn parhau yn flaenoriaeth wleidyddol draws-bleidiol ac y caiff cymdeithasau tai eu gweld fel chwaraewyr allweddol wrth roi diwedd ar yr argyfwng tai yng Nghymru.
- Arwain cyflenwi ein gwaith materion cyhoeddus, gan ddynodi risgiau a chyfleoedd, a chydlynu gweithgaredd materion cyhoeddus ar draws y tîm Polisi a Materion Allanol.
- Meithrin cysylltiadau cryf ar sail trawsbleidiol a chefnogi ein haelodau i feithrin cysylltiadau cryf yn lleol gydag Aelodau o Senedd Cymru, Aelodau Seneddol San Steffan ac aelodau etholedig lleol.
- Sicrhau newid cadarnhaol ar ran cymdeithasau tai yng Nghymru drwy weithgaredd eiriolaeth effeithlon.
- Adeiladu rhwydweithiau a chysylltiadau cryf, ymddiriedus a dylanwadol gyda'n haelodau, partneriaid allanol a gwneuthurwyr penderfyniadau i gefnogi ymdrechion i sicrhau newid
- Arwain gweithgaredd datblygu polisi ar brosiectau allweddol. Dylai hyn gynnwys gweithio'n rhagweithiol gyda'n haelodau a phartneriaid i adeiladu achos cryf a chadarn dros weithredu a diwygio drwy ymgysylltu, cysylltiadau, tystiolaeth a gweithgaredd materion cyhoeddus effeithlon.
- Cynrychioli cymdeithasau tai yng Nghymru mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau, cyfleoedd dylanwadu ac yn y cyfryngau.

## 3. STRWYTHUR ADRODD

**4. DIMENSIYNAU**

1. Bydd y swydd hon yn gyfrifol am ddatblygu cynllun materion cyhoeddus rhagweithiol gan gydlynu a chyflenwi ei weithrediad effeithlon ar draws y sefydliad.
2. Ni fydd gan y swydd hon gyfrifoldeb rheoli llinell.
3. Ni fydd gan y swydd hon gyfrifoldeb rheoli cyllideb.
4. Bydd y swydd hon yn arwain gweithgaredd eirioli CHC ar bortffolio o brosiectau polisi allweddol.
5. Gan weithio dan fframwaith rhaglen ymchwil strategol CHC ac ar y cyd â Chynghorydd Ymchwil a Pholisi CHC, bydd y swydd hon yn ystyried ffyrdd y gall ymchwil a thystiolaeth gyfrannu at bob maes o'ch gweithgaredd.
6. Bydd y swydd hon yn gyfrifol am greu a chynnal amrywiaeth o gysylltiadau cryf, dylanwadol ac ymddiriedus gyda'n haelodau, partneriaid allanol a gwneuthurwyr penderfyniadau, sydd eu hangen i sicrhau newid.

## 5. PRIF GYFRIFOLDEBAU Y SWYDD

- Gyrru ymlaen ein gweithgaredd materion cyhoeddus yn cynnwys rhaglen gydlynu i ddatblygu cysylltiadau trawsbleidiol cryf ac arwain wrth ddatblygu a gweithredu cynllun materion cyhoeddus rhagweithiol sy'n cefnogi CHC i sicrhau diwygio ar ran ein haelodau.
- Gweithio gyda'r tîm Polisi a Materion Allanol i gyflenwi newid a diwygio ar ran cymdeithasau tai yng Nghymru. Dylai hyn fod yn unol â'n Cynllun Corfforaethol a'n Strategaeth Materion Allanol.
- Adeiladu cysylltiadau dylanwadol ac ymddiriedus gydag aelodau CHC, partneriaid allanol a gwneuthurwyr penderfyniadau a defnyddio'r rhwydwaith cryf hwn i eirioli dros newid a diwygio ar ystod o faterion allweddol.
- Adeiladu sylfaen tystiolaeth cryf i gefnogi gweithgaredd eirioli CHC.
- Gweithio'n agos gyda'r Cynghorydd Cyfathrebu i gefnogi cyfathrebu allanol effeithlon ar faterion allweddol yn cynnwys datblygu cynnwys sy'n creu argraff a rhoi cyngor arbenigol ar faterion polisi allweddol.
- Gweithio'n agos gyda'r tîm Aelodaeth ac Ymgysylltu i roi cyngor ar ein cynnig i aelodau fel ei fod yn amserol, perthnasol ac yn rhoi cefnogaeth ehangach i'n gweithgaredd eiriolaeth.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur gyda'r swydd hon.

## 6. CYD-DESTUN GWAITH

Mae'r tîm Polisi a Materion Allanol yn gyfrifol am weithgaredd eiriolaeth CHC i sicrhau newid ar y materion sy'n bwysig i'n haelodau.

Bydd y swydd hon yn allweddol wrth safleoli CHC a chymdeithasau tai fel partneriaid allweddol i roi diwedd ar yr argyfwng tai gyda gwleidyddion a sicrhau blaenoriaeth wleidyddol barhaus i dai cymdeithasol ar sail drawsbleidiol.

Mae CHC yn gweithredu mewn amgylchedd allanol prysur ac esblygol. Mae'r gallu i addasu a bod yn hyblyg yn ein hymagwedd a'r dulliau a ddefnyddiwn i sicrhau newid yn sgil hollbwysig yn y swydd hon. Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n agos gydag aelodau eraill o'r tîm a'r tîm aelodaeth ac ymgysylltu i sicrhau fod ein cefnogaeth, cyfathrebu allanol, materion cyhoeddus a gweithgaredd polisi wedi eu seilio ar ddealltwriaeth gadarn o'r heriau polisi, tystiolaeth a chynigion adeiladol ar gyfer diwygio.

Mae cysylltiadau ymddiriedus a dylanwadol gyda'n haelodau, rhanddeiliaid allanol a gwneuthurwyr penderfyniadau yn rhan allweddol o eiriolaeth effeithlon. Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am ddatblygu rhwydwaith cryf, cydweithio a chefnogi gweithio partneriaeth i greu'r achos dros a sicrhau diwygio ar ran ein haelodau.

**7. YMREOLAETH A GWNEUD PENDERFYNIADAU**

Bydd y swydd yn gweithredu o fewn polisïau a gweithdrefnau gosod.

**Penderfyniadau a wnaiff y swydd hon:**

- Dynodi cyfleoedd a risgiau allanol yn unol â'n Strategaeth Materion Allanol a datblygu cynigion ar sut i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd neu liniaru risgiau.
- Datblygu a gweithredu cynllun materion cyhoeddus clir i sicrhau newidiadau allweddol yn ein Cynllun Corfforaethol a'n Strategaeth Materion Allanol. Bydd deiliad y swydd yn gweithredu penderfyniadau o fewn cyfyngiadau'r cynllun a gytunwyd.
- Mewnbwn materion cyhoeddus i'r cynllun materion allanol a gaiff ei rannu ar gyfer pob mater polisi, wedi ei gydlynu gan yr arweinydd polisi perthnasol. Bydd pob cynllun yn defnyddio ystod o ddulliau polisi, ymchwil a materion cyhoeddus, yn ogystal â chysylltiadau i cyfathrebu a'n cynnig i aelodau, i sicrhau newidiadau yn ein Cynllun Corfforaethol a'n Strategaeth Materion Allanol ar gyfer meysydd portffolio polisi. Bydd penderfyniadau gweithredu o fewn cyfyngiadau'r cynllun a gytunwyd yn gorffwys gyda deiliad y swydd.
- Bydd penderfyniadau ar sut i arwain ein hymgysylltu gyda'n haelodau ar faterion allweddol o fewn portffolio polisi i sicrhau y caiff gwaith CHC ei arwain gan aelodau a'i fod yn gredadwy yn gorffwys gyda deiliad y swydd.

**Penderfyniadau y bydd y swydd hon yn eu hatgyfeirio:**

- Caiff materion risg uchel neu faterion sylweddol tu allan i gynllun a sefydlwyd ar gyfer y maes gwaith eu hatgyfeirio at y Pennaeth Polisi a Materion Allanol, Pennaeth Polisi ac Ymchwil neu'r Cyfarwyddwr Materion Allanol fel sy'n briodol. Dylai hyn gynnwys cyngor gan ddeiliad y swydd ar natur y risg a'r cynigion ar gyfer ei drin.
- Caiff materion yn ymwneud ag adnoddau a chyllideb eu hatgyfeirio at y Pennaeth Polisi a Materion Allanol. Dylai hyn gynnwys cynigion a chyngor gan ddeiliad y swydd.
- Caiff cyfathrebu mewn argyfwng a materion sylweddol am gysylltiadau ac aelodaeth eu hatgyfeirio gyda chyngor at y Cyfarwyddwr Materion Allanol neu'r Prif Weithredwr fel sydd angen.

## 8. CYFATHREBU

Mae gwaith CHC yn digwydd yn fwyaf effeithlon pan mae gennym gysylltiadau cryf ac ymddiriedus gyda rhanddeiliaid allweddol, ein haelodau a'n cydweithwyr. Bydd angen i ddeiliad y swydd fuddsoddi amser yn adeiladu'r cysylltiadau hyn, yn cynnwys ymgysylltu wyneb yn wyneb. Bydd meithrin rhwydwaith proffesiynol cryf yn ganolog i'r gallu i gyflawni'r swydd hon yn effeithlon.

**Mewnol**

Bydd y swydd hon yn adeiladu cysylltiadau cryf ar draws yr holl sefydliad i ddeall rôl gwahanol swyddi a blaenoriaethau'r sefydliad, gyda golwg ar gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i CHC fod yn llwyddiannus.

- Cynghorydd Cyfathrebu
- Tîm Polisi a Materion Allanol
- Pennaeth Aelodaeth a Phartneriaethau a'r tîm ehangach
- Cyfarwyddwr Materion Allanol

**Allanol**

- Aelodau cymdeithasau tai yng Nghymru
- Partneriaid allanol tebyg i Shelter Cymru, Crisis, Cymorth, CIH Cymru, UK Finance, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, TPAS Cymru, melinau trafod, Conffederasiwn GIG, cyrff proffesiynol perthnasol, Deryn
- Aelodau o Senedd Cymru ac aelodau etholedig
- Swyddogion Llywodraeth Cymru

## 9. PRIF FEYSYDD ANHAWSTER

- Sicrhau fod tai cymdeithasol yn parhau yn fater allweddol mewn amgylchedd gwleidyddol sy'n newid gyda llu o faterion allweddol a phwysig ar gyfer gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol
- Bydd newidiadau sylweddol i Senedd Cymru yn her a hefyd yn gyfle a bydd angen i ddeiliad y swydd roi cyngor ar sut i safleoli CHC a chymdeithasau tai gydag Aelodau Senedd a gaiff eu hethol o'r newydd neu sy'n dychwelyd yn dilyn yr etholiad nesaf i feithrin cysylltiadau cryf a sicrhau tai cymdeithasol fel blaenoriaeth wleidyddol drawsbleidiol barhaus
- Mewn tirlun polisi prysur a gweithgar, sicrhau fod ffocws gwaith CHC ar y gweithgareddau sy'n ychwanegu'r gwerth mwyaf i'n haelodau
- Sicrhau ffocws ar weithredu a chyflenwi yn ychwanegol at ddatblygu polisi gan wneuthurwyr polisi fel y gellir rhoi diwygiadau ar waith yn lleol a'u bod yn dangos barn cymdeithasau
- Defnyddio dulliau ymgysylltu ag adeiladu, adeiladu sylfaen tystiolaeth cryf a rheoli cystadlu o ran pwysau a barn ein haelodau i sicrhau fod CHC yn siarad yn gredadwy fel llais y sector cymdeithasau tai yng Nghymru.

- Mae gweithio mewn amgylchedd allanol sy'n esblygu'n gyflym yn golygu fod y gallu i fod yn hyblyg ac ystwyth yn y gwaith a wnawn a'r ffordd y gwnawn hynny yn allweddol.

**10. GWYBODAETH, SGILIAU A NODWEDDION SYDD EU HANGEN AR GYFER Y SWYDD**

**Hanfodol:**

- Gradd berthnasol
- O leiaf 2 flynedd o brofiad yn gweithio mewn swydd materion cyhoeddus neu ymgyrchoedd dylanwadu
- Profiad o sicrhau diwygio a newid drwy bolisi, materion cyhoeddus a datblygu ymchwil effeithlon
- Profiad o graffu deddfwriaeth ac ymgysylltu â'r broses ddeddfwriaethol
- Gallu i ddatblygu cysylltiadau cryf ac ymddiriedus gyda gwneuthurwyr penderfyniadau a gwleidyddion ar sail trawsbleidiol
- Dealltwriaeth gadarn o amgylchedd wleidyddol Cymru a rhwydweithiau cryf.
- Profiad o weithio mewn amgylchedd dan bwysau lle mae hyblygrwydd yn allweddol.
- Profiad o weithredu ymgyrchoedd neu brosiectau llwyddiannus sy'n gwneud argraff.
- Sgiliau ysgrifenedig rhagorol yn cynnwys y gallu i deilwra cynnwys i wahanol gynulleidfaoedd.
- Profiad o siarad cyhoeddus, yn cynnwys y cyfryngau
- Gallu i ddefnyddio data, ymchwil ac ymgysylltu i fesur a gwerthuso effaith ein gwaith ac adeiladu achos dros newid
- Mae angen teithio i adeiladu cysylltiadau cryf ac ymddiriedus a chyflawni ein gwaith.

**Dymunol:**

- Gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg.
- Gallu i reoli nifer o brosiectau ar yr un pryd

## 11. CYTUNDEB

| | |
|---|---|
| Llofnod Deiliad y Swydd | Dyddiad |
| Llofnod y Rheolwr Llinell | Dyddiad |
| Teitl: | |